CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

*Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd am 7pm ar 1 Chwefror 2021 yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd)(Cymru 2020.*

---

Presennol: Cadeirydd: Cyng Steve Kings Cyngr: Hywel Davies, Iwan Davies, Amanda Edwards, Nicky Redmond, Ken Symmons, Claire Proven

CS Clive Davies

Clerc

Aelodau'r cyhoedd a'r wasg: 0.

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Dim

**2. Datgan Diddordeb ar faterion sy'n codi o'r Agenda**
Dim

**3. Cadarnhau Trefn yr Agenda** a nodi unrhyw eitem a allai gael ei neilltuo ar gyfer sesiwn gyfrinachol
Derbyniwyd yr agenda fel y cafodd ei chyflwyno

**4. Cadarnhau Cofnodion 04.01.21**
Cynigiodd y Cyng N Redmond y dylid derbyn y cofnodion fel cofnod cywir, eiliwyd gan y Cyng A Edwards a chytunwyd.

**5. Ceisiadau Cynllunio**

A201072 Tir oddi ar B4570 Llangoedmor. Gosod carafán/caban ar y tir tra bydd adeiladu ar y safle. Roedd Cyngor Cymdeithas Llangoedmor yn cefnogi'r cais.

Mae dogfennau cynllunio i'w gweld yn: https://www.ceredigion.gov.uk/resident/planning-building-control-and-sustainable-drainage-body-sab/planning-building-control/

**6. Adroddiad y Cynghorydd Sir**
Dywedodd y CS Clive Davies na fyddai'n adnewyddu ei drwydded Zoom pan ddeuai i ben ym mis Mai ac felly byddai'n rhaid i'r Cyngor gael trefniadau eraill os byddent yn dymuno parhau i gynnal cyfarfodydd rhithwir. Dywedodd fod Pont Llechryd wedi ailagor ar ôl y llifogydd yn ddiweddar, ond y byddai'r

adeiladwaith yn cael ei archwilio'n ddiweddarach yn y flwyddyn. Roedd yn gobeithio gallu rhannu'r gwaith modelu gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a oedd yn dangos yn glir mai'r broblem gyda'r llifogydd oedd y cwm, nid y bont na'r ynys. Roedd y draenio ar yr A484 yn ffinio â'r hyn oedd gynt yn Cilgerran TV i gael ei archwilio ar frys. Roedd yn dal i ymchwilio i bosibiliadau sefydlu cynllun cadw llygad. Roedd y Cynllun Lle wedi cyrraedd y cam olaf. Dywedodd mai 21 Mawrth oedd diwrnod y Cyfrifiad ac y gallai swyddog o CSC esbonio sut y byddai'r Cyfrifiad yn gweithio os byddai angen. Roedd y prosiect 'Tyfu Canolbarth Cymru' yn symud ymlaen. Roedd cydlynydd band eang cymunedol nawr yn Llechryd. Roedd y falch dweud bod 'Internet of Things' yn cynyddu ar draws y sir. Dywedodd y byddai'r Cynghorydd Ward priodol ar Gyngor Tref Aberteifi yn cysylltu ynglŷn â'r goleuadau traffig ar yr A484.

**7. Cyllid a Gweinyddu**

**7.1 Taliadau Misol**

*7.1.1 Cymeradwyo symiau'n daladwy*

| | | | |
|---|---|---|---|
| HARC | | | 78.80 |
| S Davies | Cyflog | | 315.25 |
| S Davies | HO 25 postio 6 | | 31.00 |
| Swyddfa Archwilio Cymru | Archwiliad Allanol | | 293.25 |
| Mathew Penny | Goleuadau Nadolig | | 435.00 |
| E M I Jones | Cyfieithu | | 240.00 |
| | | | |
| Danfo | Glanhau'r bloc toiledau | | tbc |
| LAS<br>E L Jones a'i Fab | Cardiau Nadolig | DU | 42.00<br>76.80 |

Cynigiwyd gan y Cyng N Redmond, eiliwyd gan y Cyng K Symmons, cytunwyd

Cytunwyd i adolygu trefniadau'r goleuadau Nadolig yng nghyfarfod mis Ebrill.
GWEITHREDU: Eitem agenda GAN: Y Clerc

*7.1.1.2 Cysoniad y Banc*
Nodwyd

*7.1.2 Achosion o Covid yn y gymuned*
Cynhwyswyd dan benawdau eraill ar yr agenda

*7.1.3 Bancio ar-lein – diweddariad*
Cytunwyd i gynnal arbrawf bancio ar-lein gan ddefnyddio taliadau'r mis hwn.

*7.1.4 Cyfethol*
7.1.4.1 Datganiad pam y gwrthodwyd cais blaenorol
Cytunwyd na fu dim trafodaeth ac aeth y mater yn uniongyrchol i bleidlais.

7.1.4.2 Cyfethol Ms Gareth el Tawabe
Cytunwyd i gyfethol Ms Gareth el Tawabe ar y Cyngor.

GWEITHREDU: Cysylltu â CSC.a Ms Gareth el Tawabe GAN: Y Clerc

*7.1.5 Dyddiadau cyfarfodydd Ebrill a Mai yn gwrthdaro*
GWEITHREDU: Eitem agenda Mawrth gan: Y Clerc

*7.1.6 Arian Grant*
*Cytunwyd i roi arian grant o £100 at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd*
GWEITHREDU: Trefnu taliad GAN: Y Clerc

*7.1.7 Cais y Clerc am wyliau*
Cytunwyd â chais y Clerc am Wyliau.

**8. Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
*8.1 Croes-y-Llan*
Dim i'w gyflwyno

***82 Llwybrau Troed / Ffordd i Aberteifi***
*8.2.1 Diweddariad am gynnydd gyda'r map cerdded*
Dywedwyd bod cymorth wedi'i gynnig gan y Cerddwyr ac y byddai'r mater yn cael ei gyflwyno ar ôl i'r cyfnod clo ddod i ben.

Mynegwyd pryder bod llwybrau troed yn yr ardal fel pe baent wedi'u cau gan berchennog y tir. Esboniwyd, os nad yw'r llwybrau wedi'u cofrestru ar y Map Diffiniol a gedwir gan y Cyngor Sir, yna nid oeddent yn cael eu diogelu. Y dyddiad olaf i wneud cais am ychwanegu llwybrau at y map oedd 2026.
GWEITHREDU: Ymchwilio i'r broses ar gyfer cofrestru llwybrau GAN: Y Clerc

*8.2.2 Diweddariad am y llwybr i Aberteifi*
Nodwyd bod y llwybr ar hyd yr afon yn cael ei hyrwyddo fel dewis addas.

***8.3 Pont Llechryd***
Trafodwyd dan adroddiad y Cyng Sirol.

**9. Amwynderau**
**9.1 Bloc Toiledau**
Dywedodd y Cyngr N Redmond a H Davies iddynt archwilio'r toiledau yn union ar ôl i Danfo fod yn glanhau a'u bod i'w gweld yn hollol lân. Dylai'r ychydig ddŵr oedd yn gollwng fod wedi'i dwsin erbyn hyn.

***9.2 Man /Cae Chwarae – pob penderfyniad yn amodol ar gymeradwyaeth Cymdeithas Cae Chwarae Llechryd***

9.2.1 *Ffin*
Roedd contract wedi dod oddi wrth y cyfreithiwr ond roedd y Clerc wedi'i ddychwelyd gyda chwestiynau.

*9.2.2 Man chwarae*
*9.2.1 Gwaith trwsio heb ei wneud ar ôl archwiliad ROSPA*
Heb newid er 04.01.21

Roedd y llwybr llithrig yn dal heb ei glirio
GWEITHREDU Y Clerc i fynd ar ôl y mater

*9.2.2 Adnewyddu'r man concrid*
Cytunwyd y byddai'r Cadelrydd yn siarad â'r contractiwr a oedd wedi cael cais i roi dyfynbris am y gwaith i weld a oedd dyfrynbris ar y ffordd.

*9.2.3 Baw cŵn a Chamerâu Olrhain yr Heddlu*

Roedd yr Heddlu wedi dweud nad oedd ganddynt bwerau i ddelio â baw cŵn ac felly ni fyddent yn gosod camera yn y cae chwarae. Byddent yn cysylltu â Phwyllgor y Neuadd ynglŷn ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol y tu ôl i'r Neuadd.

Mynegwyd pryder bod twmpathau yn y llwybr tarmac y tu ôl i'r man chwarae yn mynd yn fwy ac y gallent achosi i rywun syrthio..

Nodwyd bod mwy o faw cŵn ar ystâd Glannant a byddai trigolion yn cael eu cynghori i gysylltu â Wales and West Housing.

**9.3 Parc ceir – Neuadd y Cwrwgl**
Roedd contract wedi dod oddi wrth y cyfreithiwr ond roedd y Clerc wedi'i ddychwelyd gyda chwestiynau.

***9.4 Eglwys y Groes Sanctaidd, Llechryd***
Roedd y Cyngor yn dal i ddisgwyl ymateb gan yr yswirwyr am y niwed i'r llawr llechi a'r llwybrau. Nodwyd bod yr ardal wedi dioddef llifogydd ers cysylltu â'r yswirwyr. Cytunwyd i ofyn i saer maen lleol edrych ar yr eglwys a'r ardal o'i hamgylch i ddweud pa waith a allai fod yn ofynnol
Cytunwyd i ofyn am ddyfynbrisiau i ddelio â'r 3 coeden yn y fynwent. Os na ellid achub y coed, byddwn yn gofyn am ddyfynbris i'w torri i lawr. Mynegodd y Cyng K Symmons bryder y gallai fod angen caniatâd i dorri'r goeden gelyn i lawr.
GWEITHREDU: Mynd ar ôl y mater GAN: Y Clerc

***9.5 Adeilad y Mileniwm***
Roedd ychydig niwed wedi'i achosi i'r llwybrau o gwmpas yr adeilad, a allai olygu bod angen gwaith trwsio maes o law.

**10. Digwyddiadau**
Cytunwyd i ystyried trefnu digwyddiad o ryw fath, yn ddibynnol ar gyfyngiadau COVID, ar gyfer Diwrnod Gweithwyr y GIG, Gofal Cymdeithasol a'r Rheng Flaen 5-7-21.

**11. Adroddiadau cyfarfodydd**
Derbyn unrhyw adroddiadau.
*11.1 Cyng I Davies – Llywodraethwyr Ysgol*
Dim byd wedi dod ymlaen.

*11.2 Cyng H Davies – Neuadd y Cwrwgl*
Dywedwyd bod Pwyllgor y Neuadd wedi cael cais i wneud asesiad risg uwch yn barod i'r Neuadd gael ei defnyddio fel gorsaf bleidleisio.

*11.3 Cyfarfod PACT – 18 Mawrth 2021*

*11.4 Grŵp Gwytnwch (i gynnwys gwybodaeth am y llfogydd)*
Diolchwyd i bawb a oedd wedi helpu yn ystod y llifogydd yn ddiweddar. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn ceisio cydlynu darlleniadau uchder yr afon â lefelau allweddol a'r hyn sy'n achosi llifogydd yn y pentref.

**12. Gohebiaeth (i gynnwys dogfennau ymgynghorol heb eu cynnwys dan unrhyw bennawd arall)**
Cysylltu â'ch cymuned leol - Canllaw Cyfathrebu i Gynghorwyr Cymuned a Thref Cymru a'u Clercod
GWEITHREDU: Gohirio tan gyfarfod mis Mawrth.

2021 Gohirio Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion
Nodwyd.

**13. Materion Personol - Cyfnewid Gwybodaeth gan Gynghorwyr**
Nodwyd bod Ciwrad newydd wedi'i benodi i Blwyf Maenordeifi.

Dywedodd y Clerc y byddai'n anfon copïau o'r ffurflen Lwfansau Cynghorwyr o gwmpas gyda gwybodaeth ar gyfer cyfarfod mis Mawrth.

Gofynnwyd a oedd posibilrwydd gosod man gwefru cyflym ar gyfer ceir trydan yn y Neuadd GWEITHREDU: Byddid yn gofyn am ragor o wybodaeth.

Nodwyd bod y mapio ar gyfer plannu coed a ddarparwyd gyda chais cynllunio blaenorol yn gywir.

**14. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 01.03.21**

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 20.38pm*